

ADRODDIAD BLYNYDDOL - 2014/15

Cynghorydd: Mair Rowlands	Grŵp: Plaid Cymru														
Ward: Bangor - Menai															
Bwriad yr adroddiad blynyddol: Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.															
Rol a chyfrifoldebau: Aelod Etholedig dros Ward Menai Bangor Aelod Cabinet Arweiniol Plant a Phobl Ifanc; Hamdden; Gwynedd Iach; a Gwasanaethau Ieuentid															
Gweithgareddau etholaethol: Cefnogi a chynorthwyo etholwyr unigol a grwpiau o etholwyr mewn nifer o achosion: Tai amlfeddiannaeth, materion sbwriel, sŵn, problemau priffyrdd a pharcio a phryderon gan yrrwyr tacsis, tyllau yn y ffyrdd, palmentydd peryglus, cynllunio a thrwyddedu. Mynychu cyfarfodydd Is-bwyllgor Trwyddedu i gefnogi gwrthwynebiadau gan drigolion ynghylch oriau agor hwyr yn y nos a chyfarfodydd cynllunio i gefnogi gwrthwynebiadau am or-ddatblygiad o dai a fflatiau amlfeddiannaeth. Cyswllt cyson gyda'r Heddlu ynglŷn a chyfraith a threfn yn y ward ac wedi cerdded o amgylch y ward nifer o weithiau i adnabod problemau. Fel aelod o Gymdeithas Bangor Uchaf, cymdeithas trigolion sy'n ymdrin â phroblemau neu weithgareddau yn y ward, fe wnes i fynychu cyfarfodydd misol gyda thrigolion i wrando ar eu barn a'u pryderon a rhoi gwybodaeth iddynt am unrhyw gais cynllunio neu drwyddedu neu unrhyw ddigwyddiad arall yn y ward. Mynychu Lansiad Partneriaeth Caru Bangor a Fforwm Tenantiaid Partneriaeth Caru Bangor, a mynychu hyfforddiant gyda wardeniaid myfyrwyr i Fangor Uchaf fel rhan o'r cynllun. Mynychu Gwasanaeth dathlu 10 mlynedd Capel a Chanolfan Gymunedol Penrallt yn y ward															
Mentrau a gweithgareddau eraill: Aelod o Gymdeithas Bangor Uchaf Cadeirydd Cangen Plaid Cymru Bangor Mynychu cyfarfodydd Beicio Bangor Mynychu cyfarfodydd Tyfu i gynorthwyo gyda'r gwaith o geisio cael rhandiroedd i Fangor Uchaf Mynychu cyfarfodydd Grŵp Gwerthfawrogi Pier Bangor Cynorthwyo efo Carnifal Bangor 2014/15 Cynorthwyo a gwirfoddoli yn nathliadau Nadolig Bangor Cefnogi Bugeiliaid y Stryd Bangor – gwirfoddoli a sylwebu yn ystod un sesiwn Cyfarfodydd efo Swyddog Prosiect Cyngor Dinas Bangor am Gerddi Beiblaidd y Gadeirlan Cydwethio efo eraill i sefydlu parkrun cyntaf Gogledd Cymru ym Mangor– 'Penrhyn parkrun' (Lansiad 15/11/14) a gwirfoddoli yn y digwyddiad yn rheolaidd Aelod o Bwyllgor Menter Iaith Bangor – Wedi cynorthwyo gyda'r gwaith o drefnu gweithgareddau Diwrnod S'mae (15 Hydref) ym Mangor; sefydlu a threfnu Parêd a Dathliadau Gŵyl Ddewi cyntaf Bangor; cynrychioli Menter Iaith Bangor yn achlysurol yn nghyfarfodydd Grŵp Digwyddiadau Bangor a Grŵp Cymunedol Pobl Bangor (TPOBCG); cyfrannu at gais am grant cyfalaf gan Llywodraeth Cymru i sefydlu Canolfan Iaith ym Mangor, wedi bod yn llwyddiannus gan sicrhau £300,000 i sefydlu'r ganolfan.															
Bu i mi fynychu'r Pwyllgorau canlynol:															
<table border="1"><thead><tr><th>PWYLLGOR</th><th>PRESENNOL</th></tr></thead><tbody><tr><td>Y Cyngor</td><td>5</td></tr><tr><td>Y Cabinet</td><td>6</td></tr><tr><td>Pwyllgor Craffu Corfforaethol</td><td>2</td></tr><tr><td>Pwyllgor Craffu Cymunedau</td><td>1</td></tr><tr><td>Pwyllgor Craffu Gwasanaethau</td><td>2</td></tr><tr><td>Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd</td><td>1</td></tr></tbody></table>	PWYLLGOR	PRESENNOL	Y Cyngor	5	Y Cabinet	6	Pwyllgor Craffu Corfforaethol	2	Pwyllgor Craffu Cymunedau	1	Pwyllgor Craffu Gwasanaethau	2	Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd	1	
PWYLLGOR	PRESENNOL														
Y Cyngor	5														
Y Cabinet	6														
Pwyllgor Craffu Corfforaethol	2														
Pwyllgor Craffu Cymunedau	1														
Pwyllgor Craffu Gwasanaethau	2														
Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd	1														

Pwyllgor Iaith	3	
CYSAG	1	
Fforwm Ardal Ogwen	4	
Canran Presenoldeb: 93%		
Roeddwn yn absennol o'r Pwyllgorau a nodir isod oherwydd:		
-		
Bu i mi gymryd rhan yn y cyfarfodydd, seminarau, ymchwiliadau a gweithdai ychwanegol canlynol:		
Gweithdy Ad-drefnu Llywodraeth Leol Gweithdy Her Gwynedd Gweithdai Toriadau Gweithgor Defnydd Cymdeithasol Plant a Phobl Ifanc o'r Gymraeg		
Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y cyrff allanol canlynol:	Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd yn y cyfarfodydd canlynol:	
Cyngor Iechyd Cymuned (hyd at Tachwedd 2014) Ysgol Cae Top (Llywodraethwr) Ysgol Friars (Llywodraethwr) Grŵp Cyswllt Prifysgol Bangor	Seremoni Wobrwyo LGIU a CCLA 2014 (Gwobrau Cenedlaethol Cyngorwyr) - ar rhestr fer enwebiadau Cyngorwyr Ifanc y Flwyddyn.	
Bu i mi fynychu'r sesiynau hyfforddiant Dysgu a Datblygu canlynol:		
Corfforaethol	Dyddiad	
Strategaeth Wastraff	7/5/2014	
Gweithdai Diogelu Plant ac Oedolion Bregus	7/5/2014, 24/6/2014 a 4/7/2014	
Gwe-Ddarlledu	26/11/2014	
Arwain yn Ddiogel	5/12/2014	
Y drefn newydd Categori Ysgolion	14/01/2015	
Rhaglen Ddatblygol Y Cabinet (Sesiwn i Aelodau Cabinet Newydd)	12/2/2015 a 9/3/2015	
Rhiantu Corfforaethol	25/2/2015	
Arwain Cymunedau trwy Newid (Sesiwn Saesneg)	27/3/2015	
Ychwanegol	Dyddiad	
Pendantwydd a Delio hefo Pobl Anodd	20/3/2015	
Rheoli Amser a Ymdopi efo Straen	17/4/2015	
Cyfanswm nifer o oriau: 36 awr		